
# Dewis safle GanBwyll - 20mya




Bydd GanBwyll a heddluoedd Cymru'n cefnogi'r terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol newydd. Ynghyd â phartneriaid eraill, megis Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Awdurdodau Lleol a grwpiau Gwylio Cyflymder Cymunedol, yr ydym yn ymgysylltu â modurwyr a chymunedau ac yn eu haddysgu er mwyn sicrhau bod y terfyn cyflymder newydd yn cael ei barchu.

Bydd gorfodi'n digwydd lle mae ei angen er mwyn cadw ffyrdd a chymunedau'n ddiogel, a bydd yn cael ei gynnal drwy gyfuniad o gerbydau gorfodi symudol a chamerâu sefydlog, fel sy'n digwydd nawr.




*Ymgysylltu ar ochr y ffordd gan ddefnyddio ymgyrchoedd 'Ugain'. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn defnyddio offer monitro cyflymder i adnabod pobl sy'n gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder, cyn stopio'r cerbyd a rhoi dewis o ddirwy a phwyntiau neu gyflwyniad addysgiadol i'r gyrrwr. Ni fydd y gyrwyr mwyaf peryglus yn gymwys a byddant yn cael eu herlyn.

Cyflwynir yr ymgyrchoedd hyn gan Gan Bwyll, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Awdurdodau Lleol a heddluoedd Cymru.

GanBwyll GoSafe
CADW FFYRDD CYMRU'N FWY DIOGEL
KEEPING WELSH ROADS SAFER